**Ken Skates AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru**
**Cabinet Secretary for North Wales and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1425
Ein cyf/Our ref KSNWT/05038/24

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

02 Gorffennaf 2024

Annwyl Jack,

Diolch am eich gohebiaeth ar 21 Mawrth at fy rhagflaenydd am "Ddeiseb P-06-1425 Gofynnwn i Lywodraeth Cymru wyrdroi ei phenderfyniad i atal bysiau T2 rhag galw yng Ngarndolbenmaen".

Rydym wrthi'n cryfhau a gwella rhwydwaith bysiau strategol TrawsCymru ymhellach ledled Cymru. Mae hynny'n cynnwys cyflwyno gwasanaethau mwy dibynadwy ac aml ar lwybrau allweddol, bysiau newydd mwy ecogyfeillgar, trefniadau tocynnu symlach a rhatach a gwybodaeth/cysylltiadau gwell i deithwyr wrth gyfnewidfeydd allweddol.

Yn dilyn trafodaethau gyda Chyngor Gwynedd, mae Trafnidiaeth Cymru (TrC) wedi gwneud nifer o newidiadau i wasanaeth T2 TrawsCymru Bangor i Aberystwyth, gan gynnwys cyflwyno amserlen "wyneb-cloc" i'w ddilyn drwy gydol y dydd ar y llwybr pwysig a hir hwn, a chyflwyno gwasanaeth amlach ar ddydd Sul. Ar ôl ystyried y galw ymhlith teithwyr fel rhan o'r newidiadau hyn, penderfynodd Trafnidiaeth Cymru ailgyfeirio gwasanaeth T2 trwy Gricieth a Rhoslan yn hytrach na thrwy Dolbenmaen a Garndolbenmaen, fydd yn cael eu gwasanaethu yn lle hynny gan wasanaeth T22 newydd TrawsCymru sy'n cysylltu'r ddau bentref â'r gwasanaeth bws rheolaidd i Gaernarfon a Phorthmadog.

Mae system docynnu ratach a symlach yn cael eu cynnig hefyd ar y ddau lwybr, a bydd fflyd o fysiau trydan newydd yn rhedeg ar y T22, a cherbydau diesel newydd yr Euro 6 ar y T2.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ar sail eich adborth, rydym wedi gofyn i TrC i barhau i fonitro'r amserlen newydd yn agos yn ogystal â threfniadau llwybrau'r gwasanaethau, a rhoi gwybod i ni erbyn diwedd mis Gorffennaf sut mae'r gwasanaethau'n setlo. Byddwn hefyd yn ystyried y ddeiseb fel rhan o'r gwaith hwn.

Yn gywir,



**Ken Skates AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru
Cabinet Secretary for North Wales and Transport